**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1126
Ein cyf/Our ref DET/00091/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

26 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ynghylch deiseb i ganiatáu i chwaraeon wedi'u trefnu ar gyfer pobl ifanc dan 18 ddilyn yr un Cyfyngiadau â Haen 4 yn Lloegr.

Y sefyllfa bresennol yw bod Lloegr mewn Cyfyngiadau Symud Cenedlaethol Haen 5 ac mae'r cyfyngiadau yno yn cynnwys cau cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Nid yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru gynnig sylwadau ar unrhyw **reoliadau** a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU.

Fel y dywedodd y Prif Weinidog ar 19 Rhagfyr, o'r 20 Ragfyr, mae Cyrmu wedi symud i lefel rhybudd pedwar yn ein Cynllun Rheoli cyhoeddedig, lefel uchaf y cyfyngiadau. Yn anffodus, er ein bod yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd ymarfer corff ar gyfer ein llesiant corfforol a meddyliol, mae ein rheoliadau rhybudd lefel 4 yn datgan bod yn rhaid inni 'aros gartref' ar wahân' am resymau hanfodol. Golyga hyn bod yn rhaid i bob atyniad o dan do a thu allan gau. Nid yw cynnal gweithgareddau yn yr awyr agored, er yn fwy diogel, heb ei beryglon, ac mae'n golygu bod yn rhaid i bobl adael eu cartrefi pan nad yw'n hanfodol. Wrth iddi fynd yn oerach, tywyllach a gwlypach, mae'r amodau yn gwella i'r feirws. Mae dull gweithredu Cymru yn ystod y cyfyngiadau 'aros gartref', yn seiliedig ar gyngor arbenigol ar ymddygiad, yn ei gwneud yn ofynnol i bobl deithio cyn lleied â phosibl. Mae pob eithriad i'r rheolau hyn, neu gonsesiynau mewn un maes, yn gwanhau y neges hon a gallai arwain at gamddealltwriaeth ymhlith y boblogaeth sy'n perygl bywydau.

Fel y gwyddoch, mae ysgolion yng Nghymru bellach wedi cau ac mae disgyblion yn dysgu o gartref (ar wahân i aelwydydd gweithwyr allweddol), er mwyn atal trosglwyddiad y feirws ymhlith pobl ifanc. Mae caniatáu digwyddiadau chwaraeon i bobl ifanc wedi'u trefnu ar hyn o bryd yn tanseilio'r ymdrech honno ac effaith cau ysgolion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd I'r afael â'r cyfyngiadau wedi bod yn seiliedig ar y data a'r wyddoniaeth ddiweddaraf fel sy'n berthnasol i Gymru, ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol ein hunain. Mae hyn er mwyn cyfyngu ar y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy, ac arafu trosglwyddiad y feirws. Drwy'r rheolau hyn, rydym yn ceisio cael cydbwysedd rhwng pwysigrwydd lles meddyliol a chorfforol pobl, ein heconomi a'r angen i bobl aros yn ddiogel a gwarchod y GIG.

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol iawn – mae'r feirws yn bresennol ym mhob un o'n cymunedau lleol. Mae ein GIG dan bwysau. Rydym angen mesurau cryf i reoli'r feirws a gwarchod iechyd y cyhoedd. Mae angen hefyd i bawb helpu nid yn unig drwy gadw at y rheolau, ond drwy wneud newidiadau bychain i'w harferion a'u bywydau bod dydd a lleihau'r cysylltiad sydd gennym â phobl eraill. Mae'r feirws yn ffynnu ar gysylltiad dynol – pryd bynnag rydym yn treulio amser gyda neu yn agos at eraill mae perygl y byddwn naill ai'n dal y feirws neu ei basio ymlaen. Byddwn yn lleihau'r risg hwn, ac yn lleihau y pwysau ar ein GIG, drwy effaith gronnol y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud. Yr effaith gyfun sy'n gwneud y gwahaniaeth, nid perygl un gweithgarwch.

Bydd adolygiad o'r cyfyngiadau bob tair wythnos. Bydd gweithgareddau chwaraeon, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer pobl ifanc dan 18, yn ail-ddechrau ar yr amser priodol, wrth i'r sefyllfa wella a'n bod yn gallu symud i lawr drwy'r lefelau rhybudd a amlinellir yn y Cynllun Rheoli.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r ymdrechion a'r aberth enfawr gan y cyhoedd a busnesau yng Nghymru i gadw Cymru yn ddiogel. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig diweddariadau rheolaidd drwy'r Cynadleddau i'r Wasg ar Covid-19 dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa bresennol ynghylch y rheoliadau.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism